# PAPUR 'D'

## CYNIGION DATBLYGU GAN GYNGHORWYR A SWYDDOGION

"Mae'r ceisiadau a ganlyn wedi eu sgriwtineiddio gan y Swyddog Monitro yn unol ag Adran 4.6.10.4 y Cyfansoddiad a rhoddwyd sylw i'r sylwadau gafwyd, os cafwyd rhai, yn yr adroddiad i'r Pwyllgor. Bydd modd darllen y sylwadau, os ceir, yn y ffeil gynllunio berthnasol".

## POLISÏAU CYNLLUN DATBLYGU AR GYFER YNYS MÔN

Bydd ceisiadau cynllunio yn cael eu penderfynu yn unol â pholisïau cynllun datblygu yr ardal ac ystyriaethau eraill o bwys. Mae'r cynllun datblygu yn cynnwys Cynllun Fframwaith Gwynedd (1993), Cynllun Lleol Ynys Môn (1996). Yn ychwanegol, mae Cynllun Datblygu Unedol Ynys Môn (a stopiwyd) (Rhagfyr 2005) yn ystyriaeth o bwys.

"Y Cynllun a Stopiwyd" - ar 1 Rhagfyr 2005 fe benderfynodd Cyngor Sir Ynys Môn "stopio gweithio" ar CDU Ynys Môn a symud ymlaen i baratoi Cynllun Datblygu Lleol. Gosodwyd y CDU Ynys Môn gerbron y cyhoedd yn Nhachwedd 2001, fe gyhoeddwyd newidiadau cyn yr arolwg a bu'r cynllun yn destun ymchwiliad cyhoeddus yn Haf 2003. Cyfnod ffurfiol olaf y broses CDU oedd adroddiad yr Arolygwr yng Ngorffennaf 2004. Mae'r dogfennau CDU hyn yn ystyriaethau o bwys wrth wneud penderfyniadau ond rhaid penderfynu ar y pwysau sydd i'w roddi i'r CDU yng ngoleuni'r polisïau, a'r gwrthwynebiadau sydd heb eu trafod, sydd yn berthnasol i'r cais sydd i'w benderfynu.

**11.1** **Gweddill y Ceisiadau** **Remainder Applications**


Rhif y Cais: **20C228B** Application Number

Ymgeisydd Applicant

**Mr Mark Lloyd Davies**
**c/o Mr D W Owen**
**Parc Myddleton**
**Denbigh**
**Denbighshire**
**LL16 4AF**

Dymchwel, addasu ac ehangu | Demolition, alterations and extensions to

Gorddinog, Cemaes



**Pwyllgor Cynllunio: 03/11/2010**

**Adroddiad gan Bennaeth y Gwasanaeth Cynllunio(DO)**

**Argymhelliad:**

Ganiatad

**Rheswm dros Adrodd i'r Pwyllgor:**

Mae'r ymgeisydd yn gweithio i Gyngor Sir Ynys Môn

**1. Y Safle a'r Bwriad**

Ty par deulawr yw'r annedd yn ei libart ei hun. Mae'r eiddo ar Ffordd Y Traeth, Cemaes.

Bwriedir dymchwel y garej to fflat presennol ac adeiladu garej ddeulawr ac estyniad unllawr yng nghefn yr annedd bresennol.

**2. Mater(ion) Allweddol**

Y prif faterion i'w hystyried yw – a yw safle a dyluniad y gwaith altro ac ymestyn arfaethedig yn dderbyniol ac a fydd y cynnig yn cael effaith niweidiol ar fwynderau'r deiliaid preswyl cyfagos.

**3. Prif Bolisïau**

**Cynllun Lleol Ynys Môn**

1 – Polisi Cyffredinol
42 – Dyluniad
58 – Estyniadau

**Cynllun Fframwaith Gwynedd**

D4 – Lleoliad, Safle a Dyluniad
D29 – Dyluniad

**Cynllun Datblygu Unedol a Stopiwyd**

GP1 – Cyfarwyddyd a Rheoli Datblygu
GP2 – Dyluniad

**4. Ymateb i'r Ymgynghoriad a'r Cyhoeddusrwydd**

Dim wedi ei dderbyn adeg ysgrifennu'r adroddiad.

**5. Hanes Cynllunio Perthnasol**

20C228 – Altro ac Ymestyn. Caniatáu 29/06/06

20C228A – Altro ac Ymestyn 09/04/10

**6. Prif Ystyriaethau Cynllunio**

Mae'r cynnig yn golygu dymchwel y garej to fflat bresennol a'i newid am garej ddeulawr gydag ardal garej, ystafell amlbwrpas ac ystafell dillad gwlyb ar y lefel isaf ac ystafell chwarae ar y llawr cyntaf. Hyn oll gyda gwaith altro ac ymestyn yng nghefn yr annedd bresennol.

Mae'n cael ei gydnabod bod maint y garej arfaethedig yn eithaf sylweddol ond mae'r ymgeisydd wedi cyflwyno datganiad o gyfiawnhad ynglyn â hyn, ac mae cynnwys y datganiad i'w weld yn foddhaol. At hyn, mae dyluniad yr hyn a fwriedir yn gweddu gyda'r pethau o'i gwmpas ac mae'r safle o fewn Ffin Ddatblygu Cemaes ac felly mae'n ymddangos bod y cynnig yn dderbyniol.

Ystyrir bod lleoliad, dyluniad, maint a deunyddiau'r estyniad arfaethedig yn dderbyniol ac nid yw'n cael ei ystyried y bydd y datblygiad yn cael effaith annerbyniol ar fwynderau eiddo preswyl cyfagos oherwydd edrych drosodd, gorgysgodi, dominyddu neu golli preifatrwydd.

**7. Casgliad**

Mae'r gwaith arfaethedig i ddymchwel, altro ac ymestyn yn cael eu hystyried yn dderbyniol o osod amodau.

**8. Argymhelliad**

**Caniatau**

**(01) Rhaid cychwyn ar y datblygiad yr ymwna'r caniatâd hwn a fo o fewn pum mlynedd i ddyddiad y caniatâd hwn.**

Rheswm: Ufuddhau i anghenion Deddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990.

**(02) Rhaid ymgymryd a'r datblygiad a ganiateir gan y caniatâd hwn yn fanwl yn ôl y cynllun a gyflwynwyd ar y 06/09/10 o dan cais cynllunio rhif.20C228B.**

Rheswm: Er mwyn osgoi unrhyw amheuaeth.

**(03)Mae'r sied sydd drwy hyn yn cael ei gymeradwyo on i gael ei ddefnyddio ar sail achlasurol i'r annedd bresennol o fewn yr ardal wedi amlinellu mewn glas ar y cynlluniau sydd drwy hyn yn gael ei gymeradwyo.**

Rheswm: I amddiffyn mwynderau preswylwyr tai cyfagos.

**9. Polisïau Perthnasol Eraill**

**Cynllun Lleol Ynys Môn**

31 – Tirlun

**Polisi Cynllunio Cymru (Mawrth 2002)**

**TAN 12 – Dyluniad**

**CCA: Cyfarwyddyd Dylunio ar gyfer yr Amgylchedd Trefol a Gwledig.**

**10. Ymatebion Eraill Di-Faterol a Godwyd**

Dim

**11.2** **Gweddill y Ceisiadau** **Remainder Applications**

Rhif y Cais: **31C230A** Application Number

Ymgeisydd Applicant

**Mr. & Mrs. B. Redfern**
**10 Ffordd Rhiannon**
**Llanfairpwll**
**Ynys Môn**
**LL61 5QB**

Codi ty haul yn Erection of a summerhouse at

10 Ffordd Rhiannon, Llanfairpwll



**Pwyllgor Cynllunio: 03/11/2010**

**Adroddiad gan Bennaeth y Gwasanaeth Cynllunio(AMG)**

**Argymhelliad:**

Caniatau

**Rheswm dros Adrodd i'r Pwyllgor:**

Mae'r ymgeiswyr yn rhieni i Swyddog Cynllunio o fewn yr Adain Rheoli Cynllunio. Mae'r Cyfansoddiad yn gofyn am i'r cais gael ei adrodd i'r Pwyllgor Cynllunio i'w ystyried a'i benderfynu.

Mae'r cais wedi'i sgriwtineiddio gan y Swyddog Monitro fel sy'n ofynnol o dan baragraff 4.6.19.4 y Cyfansoddiad.

**1. Y Safle a'r Bwriad**

Mae safle'r cais ar stad Ffordd Rhiannon ym mhentref Llanfairpwll. Ty par deulawr yw'r eiddo.

Cynnig yw hwn i godi tŷ haf gyda theras yn ffrynt yr eiddo.

**2. Mater(ion) Allweddol**

Y prif faterion yma yw – a yw lleolir ty haf arfaethedig yn dderbyniol ynghyd ag unrhyw effaith ar eiddo cyfagos.

**3. Prif Bolisïau**

**Cynllun Lleol Ynys Môn**

Polisi 1 – Polisi Cyffredinol
Polisi 58 – Estyniadau

**Cynllun Fframwaith Gwynedd**

Polisi D4 – Lleoliad, safle a dyluniad

**Cynllun Datblygu Unedol a Stopiwyd**

Polisi GP1 – Cyfarwyddyd Rheoli Datblygu
Polisi GP2 – Dyluniad
Polisi HP7A – Estyniadau

**CCA – Cyfarwyddyd Dylunio ar gyfer yr Amgylchedd Trefol a Gwledig**

## 4. Ymateb i'r Ymgynghoriad a'r Cyhoeddusrwydd

Yr Aelod Lleol – Dim ymateb at adeg ysgrifennu'r adroddiad.

Cyngor Cymuned – Dim ymateb ar adeg ysgrifennu'r adroddiad.

Asiantaeth yr Amgylchedd – Sylwadau

Draenio – Sylwadau

Rhoddwyd cyhoeddusrwydd i'r cais trwy osod rhybudd safle ger y safle ynghyd ag anfon rhybuddion i eiddo cyfagos. Dyddiad olaf ar gyfer derbyn sylwadau yw 4 Tachwedd, 2010. Ar adeg ysgrifennu'r adroddiad nid oedd unrhyw sylwadau wedi'u derbyn.

## 5. Hanes Cynllunio Perthnasol

31C230 - Codi ystafell haul, ystafell amlbwrpas a garej ar wahan yn 10 Ffordd Rhiannon, Llanfairpwll. Caniatáu - 11.04.00

## 6. Prif Ystyriaethau Cynllunio

Dyluniad: Mae'r ty haf arfaethedig i'w leoli yng ngardd ffrynt 10 Ffordd Rhiannon. Mae'r deunyddiau a fwriedir, sef paneli coed i'r drychiadau a tho ffelt pits yn cael ei ystyried fel rhai derbyniol yn y lleoliad hwn.

Effaith ar eiddo cyfagos: Mae yna wal derfyn rhwng Rhif 9 a 10, gwrychyn a giât ffrynt yr eiddo. Nid ydym yn credu y bydd lleoli ty haf yn y lleoliad yn cael effaith ar y mwynderau sydd ar hyn o bryd yn cael eu mwynhau gan ddeiliaid yr eiddo cyfagos.

## 7. Casgliad

Mae yna ddigon o le o fewn cwrtil Rhif 10 Ffordd Rhiannon i leoli'r ty haf heb iddo edrych yn gyfyng nac yn orddatblygu. Mae'r cynllun arfaethedig yn cydymffurfio gyda pholisïau lleol a chenedlaethol.

Y dyddiad olaf ar gyfer derbyn sylwadau yw 4 Tachwedd, cyn belled ag na fydd unrhyw sylwadau yn cael eu derbyn ar ôl y dyddiad hwn, dylid rhyddhau'r rhybudd penderfyniad.

## 8. Argymhelliad

**Caniatau**

**(01) Rhaid dechrau'r datblygiad yr ymwna'r caniatâd hwn ag ef heb fod yn hwyrach na diwedd pum mlynedd sy'n dechrau gyda dyddiad y caniatâd.**

Rheswm: I gydymffurfio gyda gofynion Deddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990.

**(02) Rhaid adeiladu'r datblygiad a ganiateir yma yn hollol unol â'r cynlluniau a gyflwynwyd ar 04.10.10 o dan gais cynllunio rhif 31C230A.**

Rheswm:  I osgoi amheuaeth.

## 9. Polisïau Perthnasol Eraill

Polisi Cynllunio Cymru (3ydd Argraffiad, Gorffennaf 2010).

## 10. Ymatebion Eraill Di-Faterol a Godwyd

Dim

**11.3** **Gweddill y Ceisiadau** **Remainder Applications**


Rhif y Cais: **46C494** Application Number

Ymgeisydd Applicant

**Mr Dafydd Thomas**
**Padua**
**Lôn St. Ffraid**
**Trearddur**
**Ynys Môn**
**LL65 2BJ**

Addasu ac ehangu Altertations and extension to

Padua, Lôn St. Ffraid, Trearddur Bay, LL65 2BJ



**Pwyllgor Cynllunio: 03/11/2010**

**Adroddiad gan Bennaeth y Gwasanaeth Cynllunio(AMG)**

**Argymhelliad:**

Caniatau

**Rheswm dros Adrodd i'r Pwyllgor:**

Mae gwraig yr ymgeisydd yn gweithio yn Adran y Rheolwr-gyfarwyddwr. Yn unol â thelerau'r Cyfansoddiad, rhaid galw'r cais i'r Pwyllgor Cynllunio i'w ystyried a'i benderfynu.

Mae'r Swyddog Monitro wedi sgriwtineiddio'r cais fel sy'n ofynnol o dan baragraff 4.6.19.4 y Cyfansoddiad.

**1. Y Safle a'r Bwriad**

Mae safle'r cais ar hyd Lôn St. Ffraid ym mhentref Trearddur. Mae'r eiddo yn fyngalo math dormer annibynnol.

Mae'r cynnig yn cynnwys gwaith altro ac estyn ar gefn yr eiddo.

**2. Mater(ion) Allweddol**

Y materion allweddol y mae'n rhaid eu hystyried yw dyluniad y datblygiad ynghyd â'r effaith ar eiddo cyfagos.

**3. Prif Bolisïau**

**Cynllun Lleol Ynys Môn**

Polisi 1 – Cyffredinol
Polisi 30 – Tirlunio
Polisi 42 – Dylunio
Polisi 58 – Ehangu

**Cynllun Fframwaith Gwynedd**

Polisi D4 – Safle
Polisi D29 – Dyluniad

**Cynllun Datblygu Unedol a Stopiwyd**

Polisi GP1 – Cyfarwyddyd Rheoli Datblygu
Polisi GP2 – Dyluniad
Polisi EN2 – Ardal o Brydferthwch Naturiol Eithriadol

**Polisi Cynllunio Cymru Cyfres 3 Gorffennaf 2010**

**TAN 12 – Dyluniad**

## 4. Ymateb i'r Ymgynghoriad a'r Cyhoeddusrwydd

Cyngor Cymuned – Dim gwrthwynebiad

Aelod Lleol – Yn fodlon i’r swyddog ddelio gyda’r mater.

Dwr Cymru – Dim ymateb ar adeg ysgrifennu’r adroddiad hwn.

Draenio – Sylwadau

Ymgynghoriad Cyhoeddus – Hysbysebwyd y cynnig trwy ddau ddull cyhoeddusrwydd; codwyd rhybudd ger y safle a llythyrau hysbysu personol i berchenogion / deiliaid eiddo yn yr ardal gyfagos. Ar adeg ysgrifennu’r adroddiad hwn nid oedd yr Adran wedi derbyn unrhyw sylwadau. Y dyddiad cau ar gyfer cyflwyno sylwadau oedd 6 Hydref 2010.

## 5. Hanes Cynllunio Perthnasol

Dim

## 6. Prif Ystyriaethau Cynllunio

**Dyluniad** – Mae’r cynnig yn golygu codi estyniad to crib yng nghefn yr eiddo i ddarparu cegin ac ystafell deulu. Bydd yr holl ddeunyddiau yn cyd-fynd â’r deunyddiau cyfredol. Mae digon o le yn y safle i dderbyn yr estyniad heb iddo edrych fel gorddatblygu mewn lle cyfyng. Ymddengys bod y cynnig yn foddhaol o ran ei safle, ei ddyluniad a’r defnyddiau.

**Effaith ar fwynderau eiddo cyfagos -** Cydnabyddir y bydd yr estyniad arfaethedig oddeutu 2 fetr o ffin yr eiddo cyfagos o’r enw Tymberleig a bod y cynnig yn golygu gosod dwy ffenestr ychwanegol ar y drychiad ochr hwnnw. Fodd bynnag, ystyrir na fydd y cynnig yn cael effaith ar fwynderau’r eiddo cyfagos trwy edrych drosodd i raddau a fyddai’n cyfiawnhau gwrthod y cais oherwydd na fyddai’r estyniad arfaethedig yn agosach i’r eiddo cyfagos na’r eiddo cyfredol ac mae ffenestri eisoes ar y drychiad ochr yr eiddo. Ni chafwyd unrhyw sylwadau negyddol yn sgil cyhoeddusrwydd a roddwyd i’r cais.

## 7. Casgliad

Mae’r cynnig yn golygu codi estyniad to crib yng nghefn yr eiddo i ddarparu cegin ac ystafell deulu. Mae digon o le ar y safle ar gyfer y cynnig heb wneud iddo edrych fel gorddatblygu’r safle mewn lle cyfyng er anfantais cymeriad yr ardal leol neu fwynderau eiddo deiliaid cyfagos. Yn fy marn i , mae’r cais yn cydymffurfio gyda pholisïau cenedlaethol a lleol y dylid ei gymeradwyo yn unol â’r amodau isod.

## 8. Argymhelliad

**Caniatau**

**(01) Rhaid cychwyn ar y datblygiad yr ymwna'r caniatâd hwn a fo o fewn pum mlynedd i ddyddiad y caniatâd hwn.**

Rheswm:  Ufuddhau i anghenion Deddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990.

**(02) Rhaid ymgymryd a'r datblygiad a ganiateir gan y caniatâd hwn yn fanwl yn ôl y cynllun a gyflwynwyd ar y 07/09/2010 o dan cais cynllunio rhif. 46C494.**

Rheswm: Er mwyn osgoi unrhyw amheuaeth.

## 9. Polisïau Perthnasol Eraill

Dim

## 10. Ymatebion Eraill Di-Faterol a Godwyd

Dim